

Polisi Tynnu Lluniau i Bwrpas Cyhoeddusrwydd

1. Cefndir

- 1.1 Mae datblygiadau technolegol yn ei gwneud hi'n llawer haws defnyddio lluniau a delweddau mewn print ac ar y we. Yn sgil hyn daw'r cyfrifoldeb i sicrhau nad yw plant ac unigolion bregus yn cael eu ecsbloetio.
- 1.2 Yn hwn yn faes cymhleth iawn a bwriad y polisi yma ydy sefydlu trefniadau ar gyfer sefyllfaedd lle mae plant;
 - dan oruchwyliaeth yr Ysgol;
 - ar eiddo yr Ysgol.
- 1.3 Cyhoeddir y polisi yma er mwyn ceisio sicrhau na fydd yr Ysgol nac unigolion sy'n gweithio i'r Ysgol yn rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle gallent gael eu herlyn am gamddefnyddio lluniau ac i osgoi sefyllfaedd lle mae diogelwch plant yn cael ei roi yn y fantol.
- 1.4 Mae'r ysgol yn gwahaniaethu rhwng tynnu lluniau "preifat" sef lluniau gan rieni, teulu agos, ysgolion i'w pwrpas eu hunain a lluniau "cyhoeddus", e.e. lluniau fyddai yn mynd i'r wasg, cyhoeddiadau, arddangosfeydd cyhoeddus.
- 1.5 Mae'r term "lluniau" yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ffotograffiaeth (ffilm a digidol) , fideo a camerau ffon symudol.

2. Lluniau "cyhoeddus"

- 2.1 Defnyddir y term "cyhoeddus" ar gyfer lluniau a dynnir gan y wasg, neu i bwrpas unrhyw fath o gyhoeddusrwydd.
- 2.2 Os oes modd adnabod y plentyn neu'r unigolyn o'r llun neu os oes enwau yn cael eu cynnwys rhaid :
 - Sicrhau caniatâd rhiant neu warchodwr ymlaen llaw ac yn ysgrifenedig gan gadw cofnod o'r gytundeb;
 - Nodi yn glir y gallasai llun gael ei osod ar wefan – tydi ddweud "i'w ddefnyddio mewn cyhoeddiadau" ddim digon da;
 - Cadw cofnod ar ffeil o unrhyw un sy'n gwrthwynebu tynnu lluniau o'u plant neu unigolion dan eu gofal.
- 2.3 Does dim rhaid dilyn y drefn yma ar gyfer llun o griw o bobl ifanc o'r cefn, neu lle nad oes modd adnabod unigolion. Ond os oes unrhyw amheuaeth, gwell bod yn ofalus a chael caniatâd.
- 2.4 Er mwyn osgoi sefyllfa o orfod cael caniatâd bob tro bydd yr ysgol yn rhoi cymal ar batrwm yr isod yn y llawlyfr ysgol:

O dro i dro bydd lluniau yn cael eu tynnu o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r ysgol. Gall rhai o'r lluniau yma gael eu rhoi yn y papurau newydd, eu cynnwys mewn cyhoeddiadau neu ar safleoedd gwe'r ysgol, Cyngor Gwynedd neu sefydliadau eraill y byddwn yn cydweithio â nhw. Os nad ydych am i'ch plentyn gael ei g/chynnwys mewn lluniau i'r pwrpas yma wnewch chi ysgrifennu at Bennaeth yr ysgol i ddweud hyn.

Mae'r wasg bob amser yn awyddus i gynnwys enwau plant gyda'r lluniau - os oes dymuniad i beidio cynnwys enwau dylai'r sawl sy'n goruchwylio egluro hynny wrth y ffotograffydd/newyddiadurwr.

3. Defnydd o luniau

Wedi cael caniatâd ac wedi tynnu lluniau dylid gosod dyddiad arnynt a sefydlu trefn ar gyfer eu ffeilio.

Ni ddylid defnyddio lluniau allan o'u cyd-destun e.e. os oes llun wedi ei dynnu mewn parc i hyrwyddo adnoddau newydd ni ddylid defnyddio hwnnw wedyn mewn dogfen ar gam-drin plant neu lun o blant yn cael ei ail-ddefnyddio ar glawr dogfen am HIV ac AIDS.

Wrth yrru llun allan i drydydd parti dylid nodi yn glir i ba bwrpas mae i gael ei ddefnyddio a chofnodi hyn.

4. Trefniadau Arbennig ar gyfer Canolfannau Hamdden / Addysg Gorfforol

- 4.1 Mae angen gofal arbennig wrth dynnu lluniau mewn canolfannau hamdden/pyllau nofio. Dylid sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc wedi eu gwisgo yn addas, yn arbennig felly mewn gweithgareddau fel nofio, gymnasteg ac athletau. Gyda'r campau hyn dylai cynnwys y llun ganolbwyntio ar y gweithgaredd. Pan fo angen cael lluniau o unigolion dylid sicrhau eu bod wedi gwisgo yn briodol cyn tynnu'r lluniau.
- 4.2 Ni ddylid caniatáu tynnu unrhyw luniau, na chaniatáu i neb fynd â camera o unrhyw fath (gan gynnwys ffôn gyda camera) heb ganiatâd Pennaeth yr ysgol. Golygai hyn y byddai ffotograffydd yn derbyn caniatad y Pennaeth cyn tynnu llun o unrhyw fath.
- 4.3 Dylid sicrhau arwydd ymhob derbynfa yn egluro ni chaniateir tynnu lluniau heb gytundeb y Pennaeth ymlaen llaw.
- 4.4 Dylai sawl sy'n trefnu'r gweithgareddau gadw cofrestr yn nodi pryd ac i ba bwrpas y tynnwyd lluniau "cyhoeddus" gan ffotograffwyr proffesiynol. Os nad oes gan y ffotograffydd gerdyn adnabod dylid nodi ei enw, cyfeiriad a rhif ffon . Dylai'r gofrestr llyniau cyhoeddus gynnwys;
 - i. Enw/enwau pwy sydd i fod yn y llun;
 - ii. Y berthynas rhwng y sawl sy'n tynnu y llun a'r rhai yn y llun;
 - iii. Y rheswm dros dynnu y llun a'r defnydd a wneir ohono;
 - iv. Rhif penodol i gofrestru dyddiad y llun
 - v. Datganiad wedi ei arwyddo yn dweud bod yr wybodaeth yn gywir. Dylid cadw'r ffurflenni hyn yn yr ysgol.
- 4.5 Wedi rhoi caniatâd i unigolyn dynnu llun dylai aelod o staff yr ysgol gadw golwg ar y sefyllfa i sicrhau bod y sawl sy'n tynnu'r llun yn cadw at y canllaw.
- 4.6 Dylid gwahardd camerâu a ffôn sy'n tynnu llun o'r manau canlynol a gosod posteri clir yn nodi hynny:
 - i. Pob lle newid;
 - ii. Toiledau

5 Comisiynu Ffotograffwyr

- 5.1 Mae'r mwyafrif o ffotograffwyr sy'n cael eu defnyddio gan y wasg, a ffotograffwyr proffesiynol yn aelodau o gyrff proffesiynol, ac fel aelodau o gyrff o'r fath bydd ganddynt gerdyn adnabod ac mae'r rhan fwyaf wedi sicrhau tystysgrif CRB (Criminal Records Bureau).
- 5.2 Mae gan bapurau newydd eu rheolau eu hunain o ran sut a phryd mae lluniau o blant yn cael eu defnyddio.
- 5.3 Wrth gomisiynu ffotograffydd dylid sicrhau :
 - a) Ei fod ef/hi yn cario cerdyn adnabod;
 - b) Ei fod ef/hi yn egluro pwrpas y lluniau i'r sawl fydd yn y llun;
 - c) Ei fod ef/hi yn llenwi ffurflen syml yn nodi pryd, ac yn lle y tynnwyd y llun a chyda lluniau agos o unigolion yn eu henwi;

- d) Yn gyffredinol mae hawlfraint llun yn aros hefo'r ffotograffydd mewn sefyllfaoedd eithriadol sensitif dylid ystyried prynu'r hawlfraint honno.
- 5.4 Dylid cael trefn i ffeilio lluniau o fewn ysgol gan nodi dyddiad tynnu'r llun, yn lle ac enwau unrhyw un sy'n ymddangos yn y llun.

Annwyl Riant / Gofalwr,

Yn ystod cyfnod eich plentyn yn yr ysgol bydd sefyllfaoedd amrywiol yn codi lle bydd tynnu lluniau (ffotograff neu fideo) yn bosibilrwydd. Mae Deddf Plant 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni sicrhau diogelwch y plant pan dynnir unrhyw luniau ohonynt yn yr ysgol.

Isod esboniaf beth yw polisi'r ysgol o safbwynt tynnu lluniau a'r defnydd a wneir ohonynt mewn gwahanol sefyllfaoedd:

Ffotograffau / fideo ar gyfer defnydd yr ysgol: e.e. disgyblion wrth eu gwaith, ar ymweliadau, mewn cystadlaethau.

Caiff ffotograffau o'r fath eu harddangos yn yr ysgol yn unig - ar waliau, mewn arddangosfeydd ac mewn llyfrynnau o waith disgyblion.

Caiff fideo o'r fath ei ddangos yn yr ysgol yn unig.

Cedwir y ffotograffau / fideo yn yr ysgol.

Ni fydd yr ysgol yn gofyn am eich caniatâd i dynnu a defnyddio'r ffotograffau / fideo yn y categori hwn.

Ffotograffau / fideo i'w defnyddio y tu allan i'r ysgol: e.e. llwyddiannau ar gyfer y papur bro a'r wasg leol, gwybodaeth ar gyfer y llawlyfr ysgol, cyfraniad i raglen deledu.

I sicrhau diogelwch disgyblion bydd yr ysgol yn sicrhau:

- bod caniatâd rhieni /gofalwyr ar gael ar gyfer ffotograffau / fideo yn y categori hwn.
- bod cyfle i rieni / gofalwyr nodi gwrthwynebiad i dynnu llun / fideo (cedwir dymuniadau o'r fath yn gyfrinachol)

Cedwir y ffotograffau / fideo yn yr ysgol.

Ffotograffau / fideo a dynnir gan rieni ac mewn sefyllfaoedd sy'n agored i'r cyhoedd: e.e. mewn cyngherddau, sioeau, mabolgampau a drefnir gan yr ysgol.

Er mwyn galluogi rhieni / gofalwyr i dynnu lluniau yn yr achlysuron uchod bydd yr ysgol yn sicrhau:

- bod caniatâd rhieni /gofalwyr ar gael ar gyfer ffotograffau / fideo yn y categori hwn.
- bod cyfle i rieni / gofalwyr nodi gwrthwynebiad i dynnu llun / fideo (cedwir dymuniadau o'r fath yn gyfrinachol)
- bod monitro defnydd o gamerâu ac unrhyw ymddygiad annerbyniol yn digwydd yn ystod y digwyddiad.

Gofynnir am eich caniatâd drwy'r ffurflen amgaeedig a gofynnaf yn garedig i chwi ei dychwelyd erbyn

Os dymunwch ddileu'r caniatâd ar unrhyw adeg cysylltwch â'r pennaeth.

Mewn achosion a ystyrir yn eithriadol gofynnir am ganiatâd penodol. Gyda disgyblion ddaw o'r newydd i'r ysgol gofynnir am y caniatâd ar ddechrau eu gyrfa yn yr ysgol.

Os oes sefyllfa'n codi pan fydd y pennaeth o'r farn nad yw'n addas i dynnu lluniau / ffilmio, gwaherddir camerâu o'r digwyddiad a bydd yr ysgol yn sicrhau bod y digwyddiad yn cael ei ffilmio neu fod lluniau yn cael eu tynnu gan berson proffesiynol wedi derbyn archwiliad heddlu. Byddai'r lluniau / fideo ar gael i rieni / gofalwyr am bris rhesymol.

Diolch yn fawr i chi am eich cydweithrediad.

Yn gywir,

Pennaeth